Taflen Reoli

Enw	Fersiwn	Dyddiad
VAT	Drafft 1	14.04.08
TK	Drafft 2	14.04.08
DP	V. 1	15.04.08
VAT	V.2	12.06.08

Cyfarfod Grŵp Llywio Aelodau Prosiect Gwyrdd	
19 Mawrth 2008, Neuadd y Sir, Caerdydd	
Yn Bresennol:	**Talfyriad**
Aelodau Etholedig:	
Y Cynghorydd David Poole, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cadeirydd)	DP
Y Cynghorydd Gerald Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	GJ
Y Cynghorydd Simon Wakefield, Cyngor Sir Caerdydd	SW
Y Cynghorydd Mark Stephens, Cyngor Sir Caerdydd	MS
Y Cynghorydd Ray Truman, Cyngor Dinas Casnewydd	RT
Y Cynghorydd John Guy, Cyngor Dinas Casnewydd	JG
Y Cynghorydd Eric Saxon, Cyngor Sir Fynwy	ES
Y Cynghorydd Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy	PF
Y Cynghorydd Robert Curtis, Cyngor Bro Morgannwg	RC
Y Cynghorydd Neil Moore, Cyngor Bro Morgannwg	NM
Swyddogion:	
Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg	CP
Dave Harris, Cyngor Sir Fynwy	DH
Pat McGrath, Cyngor Sir Caerdydd	PMG
Stephen Davison, Cyngor Dinas Casnewydd	SD
Steven Phillips, Cyngor Sir Caerdydd	SP
Tara King, Rheolwr Prosiectau	TK
Victoria Thorne, Gweinyddwr y Prosiect	VT
Elizabeth Weale, Cyngor Sir Caerdydd	EW
Liz Lucas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	LL
Dr. Cherie Whiteman, Parsons Brinckerhoff	CW
Hazel Nickless, Pinsent Masons	HN
Ymddiheuriadau:	
Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	MS

Rhif	Eitem	Cam Gweithredu
1	**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**	
	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2008.	Nodwyd
2	**Materion yn Codi**	
	2/08 – Cynhaliwyd trafodaeth bellach gyda PUK a Llywodraeth y Cynulliad yng Nghyfarfod Partneriaeth Gwastraff Cymru lle codwyd pryderon am y diffyg strwythur cyllid.	Nodwyd
	3/08 – Darparwyd amlinelliad yn y cyflwyniad.	Nodwyd
	7/08 - Seminar ar y Cyd wedi'i drefnu ar gyfer 16 Mehefin yn Nhredomen.	Cytunwyd
	9/08- TK â dyddiadau cyfarfodydd a threfniadau cyfarfodydd ar y gweill.	Nodwyd
	10/08 – Parhau â'r dialog gyda PUK a chyflwyno OBC.	Nodwyd
	30/08 – Parhaus, trafodaeth bellach yn y gweithdy Llywodraethu yn Ebrill.	
	32/08 – I'w drafod yng nghyfarfodydd Mai/Mehefin.	Nodwyd
	34/08 - Cynhaliwyd ym Mro Morgannwg cyfarfod nesaf yn Nhredomen.	Nodwyd
3	**Y Wybodaeth Ddiweddaraf**	
35/08	Hysbysodd SP yr aelodau bod y gwaith o gasglu data yn broses barhaus ar gyfer yr OBC. Bydd drafft 75% - 85% yn barod ar gyfer y Pasg.	Nodwyd
36/08	Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penodi Partnerships UK fel ymgynghorwyr i Lywodraeth y Cynulliad ac i gynorthwyo â siapio prosiectau ar gyfer gwastraff yng Nghymru. Bydd Prosiect Gwyrdd yn delio â PUK a Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cwblhau'r OBC ac fel methodoleg ar gyfer cynnig am nawdd. O ystyried nad oes polisi clir gan Lywodraeth y Cynulliad a bod angen i'r OBC drafft ystyried posibiliadau nawdd mae angen darparu cyflwyniadau cynnar i PUK/Llywodraeth y Cynulliad, cyn yr adroddiad i'r Cyngor ddechrau'r drafodaeth. Ategodd y Cynghorydd Poole y pwysigrwydd o ddechrau'r dialog gan annog swyddogion i wneud hynny ar bob cyfle.	Nodwyd
37/08	Mae WLGA yn parhau â'r ddadl polisi gwastraff â'r Gweinidog Jane Davidson. Mae ymateb y cyfrannodd y mwyafrif o'r awdurdodau lleol ato i'r Papur 'Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Rheoli Gwastraff Dinesig yng Nghymru' wedi'i gynhyrchu, cylchredwyd y paragraffau crynodeb agoriadol er gwybodaeth. (atodedig)	Nodwyd
4	**Tuedd Optimistiaeth**	
38/08	Gwnaeth CW gyflwyniad ar Duedd Optimistiaeth.	Nodwyd
39/08	Esboniodd CW bod y lefelau tuedd yn dibynnu ar y math penodol o brosiect.	Nodwyd
40/08	Cadarnhaodd CW bod yr effeithiau risg a'r ffactorau sy'n lliniaru wedi'u nodi yn y Fframwaith Rheoli Risg.	Nodwyd
41/08	Bydd y Duedd Optimistiaeth yn cael ei diweddaru ar adegau allweddol	

	o'r prosiect yn yr un modd â'r log risg a'r achos fusnes, fodd bynnag bydd hyn yn helpu i leihau'r costau a sylweddoli gwir gost y prosiect. Ychwanegodd HN y gellir rheoli risgiau trwy ddialog cystadleuol. Ychwanegodd SD y gall trosglwyddo mwy o risg i gynigwyr gynyddu'r pris.	Nodwyd
5	**Argaeledd Tir**	
42/08	Hysbysodd CP nad oedd y prosiect ar hyn o bryd yn ystyried safleoedd unigol ond yn defnyddio'r SEWRWP. Ychwanegodd CP bod fframwaith wedi'i sefydlu i amlygu'r safleoedd digonol sydd ar gael.	Nodwyd
43/08	Rhoddodd y Cadeirydd esboniad o'r broses ar gyfer derbyn y SEWRWP.	Nodwyd
44/08	Hysbysodd y Cadeirydd y bydd cymeradwyaeth Terfynol y SEWRWP yn digwydd ym mis Medi 2008.	Nodwyd
6	**Llywodraethu**	
45/08	Cyflwyniad TK.	Nodwyd
46/08	Hysbysodd EW bod y Strwythur Llywodraethu yn cynnig bod Strwythur Cydbwyllgor gydag Awdurdod Arweiniol yn galluogi'r cynigwyr i gael un parti clir i ddelio ag ef.	Nodwyd
47/08	I gadarnhau: Hysbysodd HN o'i phrofiad hi bod prosiectau gwastraff wedi defnyddio Cydbwyllgorau pan fo'r pwyllgor/swyddogion â phwerau gwneud penderfyniadau. Nid yw opsiynau yn mynd yn ôl at awdurdodau unigol ar gyfer penderfyniad, gan nad yw hyn yn ymarferol ar gyfer yr holl benderfyniadau sy'n angenrheidiol.	Nodwyd
48/08	Disgwylir y bydd yr adroddiad cyffredin sy'n ystyried yr OBC yn cael ei gyflwyno ym Mehefin/Gorffennaf ym mhob Cyngor a fydd hefyd yn cynnig dealltwriaeth lawn o Bwerau Cydbwyllgor ag Awdurdod Arweiniol.	Nodwyd
49/08	Hysbysodd TK y cytunwyd y bydd Liz Lucas (Caerffili) yn cynhyrchu templed ar gyfer pob awdurdod i boblogi gyda Materion i'w defnyddio mewn Gweithdy Llywodraethu yn Ebrill.	LL
50/08	Cytunodd y Cadeirydd i gynnal cyfarfod ar y cyd i gyflwyno'r opsiynau llywodraethu i aelodau i'w hystyried. Mae'r Seminar/Gweithdy ar y Cyd wedi'i drefnu ar gyfer 16 Mehefin 2008 ar hyn o bryd. TK yn trefnu	TK
7	**Cyfathrebu**	
51/08	Gweler tudalennau 11-16 o gyflwyniad TK (atodedig).	Nodwyd
52/08	Hysbysodd TK nad oes unrhyw faterion TUPE hysbys.	Nodwyd
53/08	Nododd TK bod angen i bawb 'werthu' neges PG i randdeiliaid ehangach e.e. Cyrff proffesiynol y farchnad fel CIWM. Ychwanegodd TK y bydd angen ymglymiad a chyflwyniadau rhanddeiliaid yn yr haf. Nododd TK bod yr aelodau oll yn eiriolwyr posibl i neges PG, bydd gan yr holl aelodau lleol ran i'w chwarae.	PAWB
54/08	Nododd TK bod ymglymiad gwell yn ofynnol rhwng Mawrth a Gorffennaf. Dylid defnyddio gwefan PG i hysbysu'r cyhoedd o nodau'r	

	grŵp, dolenni i gynlluniau a strategaethau etc ailgylchu y Cynghorau.	Nodwyd
55/08	Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd y Strategaeth Gyfathrebu. Ychwanegodd y Cadeirydd bod angen dysgu gwersi o brofiadau blaenorol yng Nghaerffili i roi arfer gorau ar waith. Cytunodd y Cynghorydd Fox gan ychwanegu y dylai'r holl aelodau fod yn rhagweithiol ac arwain y ffordd o ran cyfathrebu. Ychwanegodd y Cynghorydd Fox y gellir creu dolenni i wefan PG ar wefan pob awdurdod ar gyfer ymglymiad y cyhoedd. Hysbysodd TK y bydd gan wefan PG ddolenni i bob awdurdod.	Nodwyd
56/08	Cytunwyd bod angen cyfathrebu rhagorol i gynorthwyo grwpiau pwysau a rhanddeiliaid lleol a thrafodwyd ymgynghoriadau. Cytunodd HN i ddarparu gwybodaeth flaenorol ar gyhoeddiadau rhanddeiliaid.	HN
8	**Y Camau Nesaf**	
57/08	Cyflwyniad TK yn parhau.	Nodwyd
58/08	Mae dyddiadau Pecyn Caffael/OJEU yn cael eu hail-werthuso.	Nodwyd
59/08	SP yn cynnig darparu drafft 90% i Lywodraeth y Cynulliad/PUK ar ôl y Pasg i roi 3 mis i Lywodraeth y Cynulliad i ymateb i'r cwestiwn nawdd mewn pryd i derfynu'r OBC ac ar gyfer yr adroddiad cyffredin ym mis Gorffennaf. Derbyniwyd nad oedd aros tan canol-diwedd Mai ar gyfer y cyfarfod MSG nesaf yn dderbyniol, derbyniwyd y cynnig i gyflwyno yn Ebrill.	Derbyniwyd
60/08	Hysbysodd y Cynghorydd Fox ei fod yn bwysig i'r holl aelodau siarad â'r Gwasanaethau Democrataidd i drefnu dyddiadau cyfarfodydd cyn y Seminar.	Nodwyd
61/08	Cynhelir y Seminar ar y Cyd am 10am ar 16 Mehefin yn Y Siambr yn Nhŷ Penallta, Tredomen.	Nodwyd
62/08	Dyddiadau cyfarfodydd i'w hadolygu ym mis Mai i sicrhau y gellir cwrdd â chylchau Gorffennaf. Efallai bydd angen addasiadau pellach yn dibynnu ar amser ymateb Llywodraeth y Cynulliad.	Nodwyd
63/08	Nododd y Cadeirydd bod y Seminar yn gyfle i ddiweddaru'r holl aelodau Gweithredol ac i ddod i gytundeb llwyr ar gyfeiriad y PG.	Nodwyd
64/08	Awgrymwyd y dylid hysbysu'r cabinetau unigol cyn y Seminar ar 16 Mehefin. Swyddog Technegol, Cyllid a Chyfreithiol pob awdurdod i friffio eu haelodau.	PAWB
65/08	Cymeradwyodd y Cadeirydd y gwaith a gyflawnwyd gan y 5 awdurdod.	Nodwyd
9	**Sesiwn Cwestiwn ac Ateb**	
66/08	Dim.	
10	**Unrhyw Fater Arall**	
67/08	Hysbysodd TK bod cyfyngiad amser ar y MOU presennol a'i fod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2008. Gofynnodd TK i estyn hyn gan 6-12 mis. Gofynnodd y Cadeirydd os oedd angen ymrwymiad ffurfiol. Hysbysodd SP bod y mater ar lefel swyddog ond eisiau bod yn glir nad oedd unrhyw wrthwynebiadau. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau.	Derbyniwyd Nodwyd

11	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**	
68/08	TK i drefnu cyfarfod ar ddiwedd Mai.	TK